**CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 28 Medi, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y Cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd D. Patel.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr M. Michael (Cadeirydd) a Mrs. N. Mackie.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr E. Williams (Is-gadeirydd) a P. Drake (Yn dirprwyo ar ran Cynghorydd J.W. Thomas).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorydd D. Lewis (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) a Cynghorydd J.W. Thomas (Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU DIDDDORDEB –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. ARCHWILIO CYMRU 2021 CYNLLUN ARCHWILIO (PC/SA151) –

PENDERFYNWYD – Dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. ARCHWILIO CYMRU - YMHOLIADAU ARCHWILIO I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLI (PC/SA151) –

PENDERFYNWYD – Dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL SRS 2020/21 (PC/SA151) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod Cadeirydd y Pwyllgor yn cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Cyfrifon y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir 2020/21.

(2) Bod Cadeirydd y Pwyllgor yn cytuno, yn llofnodi ac yn dyddio'r Llythyr Cynrychiolaeth i Archwiliad Cymru ar gyfer 2020/21.

(3) Bod adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar archwiliad y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir ar gyfer 2020/21 yn cael ei nodi.

(4) Bod Cadeirydd y Pwyllgor, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020 y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir 2020/21.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn i'r Datganiad Cyfrifon gael ei gymeradwyo cyn y dyddiad cau.

(2) Er mwyn dychwelyd y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i lofnodi i Archwiliad Cymru.

(3) Gan ystyried canlyniadau'r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2020/21 y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir.

(4) Er mwyn cymeradwyo a llofnodi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir.

EITEM AGENDA 7. TROSOLWG A DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD – Nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. CYNLLUN GWASANAETH GORFODI IECHYD A DIOGELWCH 2021/22 Y GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2021/22.

(2) Bod Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir yn cael ei awdurdodi i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2021/22 pe bai'r angen yn codi.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Caniatáu i Bennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir wneud diwygiadau gweinyddol pe bai'r angen yn codi.

EITEM AGENDA 9. CYNLLUN GWASANAETH GORFODI CYFRAITH BWYD A PHORTHIANT GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR 2021/22 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant Bwyd Anifeiliaid 2021/22.

(2) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn ymchwilio i'r posibilrwydd y codir taliadau ariannol am gamau gorfodi a ddygir yn erbyn unrhyw fusnesau risg uchel.

(3) Bod Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir yn cael ei awdurdodi i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2021/22 pe bai'r angen yn codi.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Yn dilyn cais gan y Cydbwyllgor am ymchwiliad i'r posibilrwydd o godi tâl ariannol am gamau gorfodi a ddygir yn erbyn busnesau risg uchel.

(3) Caniatáu i Bennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir wneud diwygiadau gweinyddol pe bai'r angen yn codi.

EITEM AGENDA 10. PENNAETH GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –Bod y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cael ei awdurdodi i ddechrau proses recriwtio i benodi Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir newydd

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Er mwyn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir Bennaeth Gwasanaeth yn y swydd o 1 Ebrill, 2022 i gydymffurfio â gofynion y Cytundeb Gweithio ar y Cyd.